# Canllawiau Cymeradwyo Hysbysebion Bwyd a Diod Cyngor Bro Morgannwg

## 1. Egwyddorion Cyffredinol – penderfynu ar gynhyrchion sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr

1.1. Mae Model Proffilio Maetholion (MPM) Llywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ac mae wedi bod yn destun craffu gwyddonol trylwyr, ymgynghori helaeth ac adolygu. Yn ogystal â hynny, mae'r system sgorio y mae'n ei defnyddio yn cydbwyso'r cyfraniad a wneir gan faetholion buddiol sy'n arbennig o bwysig mewn dietau plant gyda chydrannau yn y bwyd y dylai plant fwyta llai ohonynt.

1.2. Felly, daeth i'r casgliad mai'r MPM yw'r ffordd orau o nodi bwydydd sy'n cyfrannu at ordewdra plant. Mae bwydydd a diodydd di-alcohol o'r fath nid yn unig yn cael eu prynu'n uniongyrchol gan blant ond yn cael eu prynu iddynt gan eraill.

1.3. Mae canllawiau ar sut i nodi a yw cynnyrch yn cael ei ystyried yn fwyd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr o dan y MPM wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 2. Eithriadau ymarferol

2.1. Mae'r MPM yn dyrannu pwyntiau ar sail cynnwys maethol 100g o fwyd neu ddiod ddi-alcohol ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng cynhyrchion ar sail maint dogn nodweddiadol neu ddull bwyta.

2.2. Nid oes eithriadau i'r polisi. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn deall y gallai fod rhai canlyniadau anfwriadol cyfyngedig o gymhwyso'r polisi hwn, ond mae wedi dod i'r casgliad nad yw'r canlyniadau hyn yn cyfiawnhau'r gwariant cyhoeddus sy'n ofynnol i sefydlu, rhedeg a monitro proses eithriadau cyffredinol.

2.3. Gall Cyngor Bro Morgannwg roi eithriadau ad hoc. Pan roddir eithriadau:

2.3.1. Ni ddylai hysbysebion a / neu gopïau ategol awgrymu bod y cynnyrch/cynhyrchion yn 'iach', o ystyried eu sgôr 'uchel mewn braster, halen a siwgr' gyffredinol;

2.3.2. Dylid cyflwyno hysbysebion a/neu gopïau ategol mewn ffordd sydd wedi'i thargedu at oedolion a lleoliadau oedolion; a

2.3.3. Rhaid i hysbysebion a/neu gopïau ategol gydymffurfio â Phrotocol Hysbysebu a Noddi Cyngor Bro Morgannwg.

## 3. Hysbysebion sy'n cynnwys bwydydd nad ydynt yn uchel mewn braster, halen a siwgr a chynhyrchion di-alcohol yn unig

3.1. Byddai'r rhain fel arfer yn cael eu cymeradwyo ond byddai angen cydymffurfio ag adrannau eraill o Brotocol Hysbysebu a Noddi Cyngor Bro Morgannwg.

## 4. Hysbysebion sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr yn unig

4.1. Pan fo hysbyseb arfaethedig ond yn cynnwys bwyd a/neu ddiod ddi-alcohol sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr, byddai copi o'r fath yn cael ei wrthod

4.2. Argymhellir felly, cyn ymrwymo i gynhyrchu hysbyseb, y dylai hysbysebwyr, os nad ydynt yn siŵr, drafod eu cymhwysedd gydag asiantiaid Cyngor Bro Morgannwg.

## 5. Hysbysebion lle mae amrywiaeth o fwydydd/diodydd di-alcohol yn cael eu cynnwys, rhai ohonynt yn uchel mewn braster, halen a siwgr

5.1. Mae hysbysebu unrhyw gynhyrchion sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr yn annerbyniol o dan Brotocol Hysbysebu a Noddi Cyngor Bro Morgannwg, felly ni allai ystod neu bryd eu cynnwys (h.y. dim ond os yw'r holl gynhyrchion yn rhai nad ydynt yn uchel mewn braster,

halen a siwgr y gellid cynnwys pryd). Byddai hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gasgliad

o gynhwysion neu leoliadau prydau bwyd sy'n cael eu dangos, gan gynnwys y rhai ar gyfer bwytai, llwyfannau agregu a gwasanaethau dosbarthu.

5.2. Cyfrifoldeb hysbysebwyr a'u hasiantiaid yw gwirio statws y cynhyrchion sy'n cael eu cynnwys gan ddefnyddio'r MPM.

## 6. Hysbysebion lle nad oes unrhyw fwydydd neu ddiodydd di-alcohol yn ymddangos yn uniongyrchol ond mae'r hysbyseb yn dod gan frand bwyd a/neu ddiod ddi-alcohol neu'n cynnwys y brand

6.1. Gallai hyn gynnwys:

- hysbysebion lle mae logo'r brand wedi'i gynnwys ond dim cynhyrchion (e.e. ymgyrch gwerthoedd brand);
- arwyddion cyfeiriadol neu hyrwyddo i siop, ap neu wefan;
- hysbyseb hyrwyddo sy'n ffocysu ar bris ond nad yw'n cynnwys unrhyw gynhyrchion (e.e. '50% oddi ar bopeth');
- hysbyseb am fusnes neu ei berfformiad; a
- noddi digwyddiad neu atyniad gan frand bwyd neu ddiod ddi-alcohol.

6.2. Bydd brandiau bwydydd a diodydd di-alcohol (gan gynnwys cwmnïau gwasanaeth bwyd a diod neu wasanaethau archebu) yn gallu gosod hysbysebion o'r fath dim ond os yw'r hysbyseb yn hyrwyddo opsiynau iachach (h.y. cynhyrchion nad ydynt yn uchel mewn braster, halen a siwgr) fel sail i'r copi.

6.3. Pan fo hysbysebwyr yn ansicr ynglŷn â dosbarthiad y copi arfaethedig o dan y canllawiau hyn, dylent drafod hyn gydag asiantiaid Cyngor Bro Morgannwg.

## 7. Hysbysebion lle mae bwyd a diod ddi-alcohol yn cael eu dangos 'yn achlysurol' (h.y. nid rhain yw pwnc yr hysbyseb ond maent yn cael eu cynnwys (neu eu awgrymu) yn weledol neu drwy gopi)

7.1. Ni ddylid hyrwyddo cynhyrchion sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr trwy eu cynnwys mewn hysbysebion ar gyfer cynhyrchion eraill. Cyfrifoldeb hysbysebwyr a'u hasiantiaid yw gwirio statws ‘uchel mewn braster, halen a siwgr’ y cynhyrchion sy'n cael eu cynnwys gan ddefnyddio'r MPM.

7.2. Pan fo eitem fwyd neu ddiod ddi-alcohol yn cael ei chynnwys yn achlysurol ac nad yw'n ymwneud â chynnyrch penodol y gellir ei asesu ar gyfer ei statws ‘uchel mewn braster, halen a siwgr’, gellir dadansoddi'r cynnyrch agosaf neu gall Cyngor Bro Morgannwg neu ei asiantiaid wrthod y copi hysbysebu ar y sail bod yr hysbyseb yn hyrwyddo bwyta bwydydd sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr.

## 8. Hysbysebion lle cyfeirir at fwyd a diod ddi-alcohol mewn testun, trwy gynrychioliadau graffigol neu gynrychiolaeth weledol arall

8.1. Ni ddylid hyrwyddo cynhyrchion sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr trwy gyfeiriadau mewn testun, delweddau graffigol neu gynrychioliadau gweledol eraill o fwyd a diod ddi-alcohol. Pan fo eitem fwyd neu ddiod ddi-alcohol yn cael ei chynnwys fel hyn ac nad yw'n ymwneud â chynnyrch penodol y gellir ei asesu ar gyfer ei statws ‘uchel mewn braster, halen a siwgr’, gall Cyngor Bro Morgannwg neu ei asiantiaid wrthod copi hysbysebu ar y sail bod yr hysbyseb yn hyrwyddo bwyta bwydydd sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr.

## 9. Hyrwyddo’n anuniongyrchol fwyd a/neu ddiod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr

9.1. Gyda chynnyrch nad yw'n uchel mewn braster, halen a siwgr ond sy’n dod o dan gategori a gwmpesir gan argymhellion Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ar gyfer lleihau siwgr neu galorïau, dylai'r cynnyrch bob amser gynnwys disgrifydd cynnyrch amlwg i helpu i'w wahaniaethu oddi wrth gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio (e.e. pan fo hysbyseb yn cynnwys pitsa neu fyrgyr nad yw’n uchel mewn braster, halen a siwgr, dylai’r ddelwedd

gynnwys testun amlwg sy'n enwi'r cynnyrch a'r manwerthwr penodol).

9.2. Fel arfer ni ddylid dangos plant mewn hysbysebion ar gyfer cynhyrchion sy'n cydymffurfio mewn categori a gwmpesir gan argymhellion ICC ar gyfer lleihau siwgr neu galorïau.

## 10. Maint dognau

10.1. Mae'r model MPM yn seiliedig ar faetholion fesul 100g o gynnyrch, yn hytrach na maint dogn a argymhellir. Dylai hysbysebwyr bob amser sicrhau eu bod yn hyrwyddo cynhyrchion mewn meintiau dogn sy'n annog bwyta'n iach. Ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn uchel mewn braster, halen a siwgr ond sy'n dod o dan gategori a gwmpesir gan argymhellion ICC ar gyfer lleihau siwgr neu galorïau, dylai'r cynnyrch gael ei arddangos fel un dogn.